

Annwyl Riant/Gofalwr,

DEFNYDDIO GORCHUDDION WYNEB AR GYFER DISGYBLION YSGOL UWCHRADD

Ysgrifennaf atoch i egluro safbwynt Cyngor Sir Caerfyrddin o ran defnyddio gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol ac yn ein hysgolion.

Ar y 26^{ain} o Awst, cyhoeddodd Vaughan Gething, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, ddatganiad ar orchuddion wyneb mewn ysgolion. Cyhoeddwyd cyngor pellach gan y Grŵp Cyngori Technegol yn dilyn ei adolygiad o'r defnydd o orchuddion wyneb mewn ysgolion. (<https://gov.wales/statement-face-coverings-schools>)

Rydym bellach wedi cael amser i ystyried y cyngor hwn ac ysgrifennu i'ch hysbysu o'n safbwynt.

CLUDIANT I'R YSGOL

- Mae defnyddio gorchuddion wyneb yn 'ofynnol' ar gludiant i'r ysgol.
- Byddwn yn darparu gorchudd wyneb y gellir ei aildefnyddio i bob disgybl os nad oes ganddo orchudd addas. Bydd y rhain yn cael ei dosbarthu gan yr ysgol ar ôl i'r disgybl ddychwelyd ym mis Medi.
- Bydd yn ofynnol i ddisgyblion lenwi'r seddi cefn ar y cerbyd yn gyntaf ar gyfer pob taith a defnyddio'r un sedd ar y daith yn ôl adref.
- Bydd y seddi y tu ôl i'r gyrrwr yn cael eu gadael yn wag.
- Os bydd disgybl yn cyrraedd heb orchudd wyneb, caniateir iddo deithio i'r ysgol. Bydd gorchudd wyneb 'tafladwy' ar gael i'r disgybl ar gyfer y daith adref os nad oes ganddynt orchudd wyneb y gellir ei ail ddefnyddio.
- Ni fydd angen i ddisgyblion â materion meddygol wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.

Yr ydym yn annog defnyddio gorchuddion wyneb y gellir eu haildefnyddio lle y bo'n bosibl, yn hytrach na gorchuddion wyneb defnydd sengl, gan fod hyn nid yn unig yn well i'r amgylchedd ond bydd yn costio llai.

DEFNYDDIO GORCHUDDION WYNEB YN YR YSGOL

Yn seiliedig ar asesiadau risg ar lefel ysgol, mae Penaethiaid a Swyddogion yr Awdurdodau Lleol wedi cytuno-

- Bydd angen i ddisgyblion gadw eu gorchuddion wyneb ymlaen pan fyddant yn gadael y bws ysgol/cyrraedd safle'r ysgol nes iddynt fynd i mewn i'w hystafell ddosbarth gyntaf.
- Cyn belled ag y bo modd, bydd ysgolion yn lleihau symudiadau disgyblion o amgylch yr ysgol.
- Bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff wisgo gorchuddion wyneb ym mhob man cymunedol dan do (nid ystafelloedd dosbarth) e.e. mewn coridorau, ciwio am ginio ac ati
- Efallai y bydd materion lleol penodol- bydd y rhain yn cael eu cyfleu i chi gan eich ysgol.
- Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu i rieni.

Mae angen i mi ailadrodd hefyd mae'r mesurau rheolaethau pwysicaf yw-

- Sicrhau nad yw unrhyw aelod o staff neu ddysgwyr sydd â symptomau neu sy'n cael ei brofi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19, neu sydd â rhywun yn ei aelwyd sydd â symptomau neu sydd wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19, yn mynychu lleoliad yr ysgol
- Golchi dwylo'n drylwyr yn amlach nag arfer.
- Sicrhau hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa'.
- Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd
- Cynnal carfanau ar wahân o ddysgwyr
- Osgoi sgysiau wyneb yn wyneb agos
- Ymbellhau gofalus rhwng oedolion bob amser, a chynnal 2m o ymbellhau cymdeithasol oddi wrth blant dros 11 oed yn yr ysgol.

Gobeithio y byddwch yn cefnogi'r penderfyniad hwn ac yn helpu i atgyfnerthu'r neges o ddefnyddio gorchuddion wyneb gyda'ch plant, ynghyd â phwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol a golchi dwylo'n rheolaidd.

Yn ddiffuant,
Gareth Morgans

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English